

## Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y Cyfarfod ar yr 9fed o Fai 2022 am 8.45yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma a trwy Zoom.

**Cynghorwyr yn bresennol:** John Phillips (Cadeirydd), Derrick Harries, Ambrose Lewis, Andrew Jones, Ann Sillars, Eirian Howells, Alyson Harries, Linda Davies, Arwyn Jones, Dyfed Davies & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

**Yn cymryd y Cofnodion:** Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**  
Diolchodd John Phillips i bawb am fynychu yn Alma a thrwy Zoom
3. **Datgan Buddiannau:**  
Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gadael y Cyfarfod adeg y Ceisiadau Cynllunio.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**  
Darllenwyd cofnodion y cyfarfod o'r 21ain o Fawrth 2022, fe'i cytunwyd a'i llofnodwyd fel cofnod cywir.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
  - Cyfyngiadau Cyflymder Trelech— Nid oedd yr adroddiad yn dilyn gosod y cownteri wedi cael ei gyhoeddi hyd yn hyn.
  - Dathliadau Jiwibili Platinwm y Frenhines— roedd y clerc wedi creu gwahoddia Facebook i'r digwyddiad yn Castell Mawr yn dilyn cais iddi wneud hynny. Roedd datblygiadau wedi bod ers hynny. Roedd Y Beca yn Trelech wedi cyhoeddu digwydd ar ddydd Sadwrn y 4ydd i ddathlu'r digwyddiad. Cytunwyd na fyddai dau ddigwyddiad ar ddau ddydd yn olynol o fudd i'r nail na'r llall. Felly, fel cyfamod, cytunwyd i gynnal y Mochyn Rhost gwreiddiol ym Mharc y Plwyf yn Trelech ar y nos Sadwrn am 7.00yh i gydfynd/rhedeg ochr yn ochr gyda'r digwydd yn Y Beca.
  - Anfoneb Goleuo Stryd Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y clerc wedi derbyn anfoneb o £569.82 ac wedi ei dalu yn unol a chyfarwyddiadau'r Cynghorwyr yn y cyfarfod blaenorol.

### **6. Gohebiaeth**

- a. Cafodd Adroddiad Archwilwyr Cymru ar dderbyn y cyfrifon am 2020-2021 ei ddarllen a'i dderbyn.
- b. Roedd Arwyddion Eagle wedi danfon anfoneb am y Plac i agoriad swyddogol Canolfan Gymunedol Alma am £78.00 wedi ei dderbyn. Cytunwyd i'w dalu.
- c. Cais Cynllunio PL/03726— Disgwylfa, Meidrim— Dymchwel ac ail-godi estyniad
- d. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gofyn am wybodaeth am Datgan Buddiannau Blyneddol. Roedd y clerc wedi cwblhau a dychwelyd y wybodaeth.

### **7. Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £846.72**

### **8. Unrhyw Fusnes Arall**

- 8.1) Roedd y Clerc wedi cyflwyno cais Ad-daliad TAW am y flwyddyn 2021-2022 am £227.56
- 8.2) Roedd y Clerc wedi bod yn diweddarau gwefan y Cyngor am fanylion sefydliadau o fewn y plwyf.

8.3) Nodwyd pryderon nad oedd y problemau roedd wedi cael eu nodi yn flaenorol yn Ronnany wedi cael eu datrys. Byddai'r Clerc yn datgan y pryderon hyn i'r Cyngor Sir.

8.4) Roedd y clerc wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru ynghlyn â phroblemau parhaus dŵr yn gollwng yn Trelech. Ymatebodd Dŵr Cymru drwy ddweud buasent yn rhoi diweddariad erbyn y 6ed o Fai. Nid oedd unrhyw ddiweddariad wedi dod hyd yn hyn.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb am eu presenoldeb â chaëwyd y cyfarfod am 9.25yh.